| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Cynorthwyydd Cegin** |
| **Lleoliad:** | **Cyfleusterau menter arlwyo'r Adran Opsiynau Cymunedol (amrywiol)** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Rhif y Swydd:** | **BG00777** |
| **Cyflog:** | **Gradd 2 (£22,366 – £23,114 pro rata / y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **28 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **Parhaol** |

## Crynodeb o'r Swydd

Mae cyfle wedi codi i recriwtio cynorthwyydd cegin i gefnogi yn y gwasanaethau arlwyo o fewn yr Adran Opsiynau Cymunedol. Bydd deiliad y swydd yn gweithio dan oruchwyliaeth y cogydd i gynorthwyo gyda rhedeg y mentrau arlwyo o fewn yr Adran Opsiynau Cymunedol.

## Hysbyseb Lawn

Mae cyfle wedi codi i recriwtio cynorthwyydd cegin yn y gwasanaethau menter arlwyo o fewn yr Adran Opsiynau Cymunedol.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio o dan oruchwyliaeth a chyfarwyddyd y cogydd i gynorthwyo a chyflawni tasgau mewn perthynas ag ailgynhesu a storio bwydydd, paratoi a gweini byrbrydau i'r cyhoedd, a dyletswyddau glanhau cyffredinol, gan gynnwys clirio a chynnal glendid yr ardaloedd cyfagos ym mhob amgylchedd, wrth weithio fel rhan o dîm.

Byddwch yn barod i weithio'n hyblyg ar draws cyfleusterau arlwyo ehangach yr Adran Opsiynau Cymunedol i sicrhau bod y meysydd gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth.

Dylech feddu ar gymhwyster Diogelwch Bwyd Lefel 2 cyfredol a pharodrwydd i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant yn y dyfodol fel sy'n ofynnol gan y swydd.

Mae trwydded yrru lawn yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Am ragor o wybodaeth neu sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â Tirion Young, Rheolwr Tîm Cynorthwyol Opsiynau Cymunedol, ar 01495 356034.

**Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau gais am ddatgeliad cofnodion troseddol.**

**Dyddiad Cau: Dydd Lau 23rd Mai 2024**

**Dyddiad y Cyfweliad: Dydd Lau 6th Mehefin 2024**